Cofnodion Cyfarfod o'r **PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU**
a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda
ddydd Llun, 07 Chwefror 2022

**YN BRESENNOL:**
Mrs Caroline White (Cadeirydd) a Mr Alan Davies (Aelodau Annibynnol);
Y Cynghorwyr Julian Evans a Gill Hopley (Cynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned)

**HEFYD YN BRESENNOL**:
Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)
Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)
Mrs Dana Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau)

(3:00pm-4:00pm)

**1 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Odwyn Davies a Dai Mason ynghyd â Mrs Caryl Davies, Ms Carol Edwards a Mr John Weston am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**2 Materion Personol**
Dim.

**3 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Dim.

**4 Y Cynghorydd Ruth Davies, Cyngor Cymuned Llangoedmor**
Cafwyd cais am ollyngiad dyddiedig 31 Ionawr 2022 oddi wrth y Cynghorydd Ruth Davies i siarad a phleidleisio ar gais cynllunio ei chymydog i newid defnydd ei heiddo i fod yn fusnes glampio sef cais cynllunio A211044 ar gyfer 6 pod glampio, toiled a chawodydd a lle parcio cysylltiedig yn The Gardener's Cottage, The Walled Gardens, Llangoedmor, Aberteifi SA43 2LQ.

Roedd y Cynghorydd Davies yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei chais.

Roedd gan yr ymgeisydd fynediad preifat dros ei thir i'w hannedd ond nid hawl i newid defnydd y mynediad ar gyfer y datblygiad newydd arfaethedig . Roedd y trac mynediad eisoes mewn cyflwr gwael oherwydd y defnydd anghyfreithlon o'i garej fel Airbnb hyd at Nadolig 2021 ac yn awr fel annedd ychwanegol. Nid oedd gan y cymdogion hawddfreintiau ychwanegol ar gyfer y mynediad ychwanegol nac ar gyfer y prif gyflenwad dŵr i'r 'annedd' hon na chwaith ar gyfer y cais presennol am yr unedau Glampio a'r toiledau a'r cawodydd a ddarperir. Cyflenwyd y dŵr i eiddo'r cymdogion drwy is-fesurydd o'i fferm hi. Roedd y prif gyflenwad dŵr yn dod i ben dros 900 metr i ffwrdd wrth fferm Cwrcoed. Roedd pwysedd y dŵr eisoes yn isel ac roedd y dŵr a ddefnyddiwyd rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mehefin 2021 eisoes wedi cynyddu gan 25% heb ddim cynnydd yn y defnydd amaethyddol neu fwy o dda byw, a dim dŵr yn gollwng. Nid oedd defnyddwyr presennol y lôn yn cau gât y cae ar ben y lôn / ar y briffordd gyhoeddus. Roedd da byw yn crwydro mas o'r cae yn rheolaidd o achos hyn. Dros y misoedd diwethaf roedd y gât wedi cael ei gadael ar agor yn rheolaidd er

iddi siarad â'r ymgeisydd a bod arwydd ar y gât yn gofyn iddi gael ei chau drwy'r amser. Hefyd gwelwyd cŵn ymwelwyr yn cwrso ar ôl y da a byddai hyn ond yn cynyddu wrth i nifer yr aelwydydd gynyddu o'r ddwy aelwyd a ganiateir ar hyn o bryd i chwe aelwyd arall.
Dywedodd y Cynghorydd Davies ei bod yn cyflwyno'r cais am ei bod yn bosib nad oedd y Cyngor yn ymwybodol o'r pwyntiau uchod.

Atebodd y Cynghorydd Davies gwestiynau ynglŷn â'i chais am ollyngiad.
Nododd y Cynghorydd Davies y canlynol:

- bod trefniadau bilio dŵr preifat ar waith
- bod 11 aelod ar Gyngor Cymuned Llangoedmor.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Davies adael y cyfarfod a oedd yn cael ei gynnal drwy fideogynadledda fel y gallai'r Pwyllgor ystyried ei chais.

**PENDERFYNWYD i WRTHOD** y cais am ollyngiad i siarad a phleidleisio yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Llangoedmor ar 7/2/22 ynglŷn â chais cynllunio A211044 gyfer 6 pod glampio, toiled a chawodydd a lle parcio cysylltiedig yn The Gardener's Cottage, The Walled Gardens, Llangoedmor, Aberteifi

Bu'r Pwyllgor yn trafod y cais am ollyngiad am gryn amser.

Roedd y rhesymau dros wrthod y cais yn cynnwys y canlynol:

(i) nid oedd y Pwyllgor yn fodlon bod unrhyw un o'r seiliau statudol ar gyfer gollyngiad wedi'u nodi;
(ii) roedd y Pwyllgor yn nodi bod gan Gyngor Cymuned Llangoedmor brotocol a oedd yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd wneud sylwadau fel aelod o'r cyhoedd yng nghyfarfodydd y cyngor cymuned ynglŷn â materion ar yr agenda neu faterion a oedd o bryder i'r Gymuned;
(iii) roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai presenoldeb cynghorydd ddylanwadu ar benderfyniad y Cyngor Cymuned;
(iv) nid oedd y Pwyllgor yn teimlo y byddai gwrthod y cais yn arwain at ddiffyg democrataidd; ac
(v) roedd paragraff 14(2), Cod Ymddygiad yr Aelodau yn berthnasol

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:_______**

**Dyddiad:_________**